OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 837 (Cy.106)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*18 Mawrth 2003*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 38, 39 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn, cymhwyso ac effaith

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003, a deuant i rym ar 1 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Diwygir Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986(**2**) yn unol â darpariaethau canlynol y Rheoliadau hyn.

Diwygio paragraff 8A yn Atodlen 1

2. Diwygir paragraff 8A yn Atodlen 1 (Cwynion) yn unol â'r paragraffau canlynol—

(a) ym mharagraff 7(b)(ii) yn lle'r gair "three", rhodder y gair "two"; a

(**1**) 1977 p.49; *gweler* adran 128(1), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990"), adran 26(2)(g) ac (i) i gael y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".
Estynnwyd adran 38 gan Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p.49), adran 13; gan O.S. 1985/39, erthygl 7; Deddf yr Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17) ("Deddf 1995"), adran 2(1), Atodlen 1, paragraff 27, a Deddf Iechyd a Nawdd Cymdeithasol 1984 (p.48) ("Deddf 1984"), adran 1.
Diwygiwyd adran 39 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15) ("Deddf 2001"), adrannau 20(1), (5)(a)(b) a 23(1), (4); gan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17) ("Deddf 2002"), adran 2(5), Atodlen 2, Rhan 1, paragraffau 1, 12(1) a (4)(b); gan Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999"), adran 9(4); gan Ddeddf y Gwasanaethau Iechyd 1980 (p.53), adrannau 1 a 2, Atodlen 1, paragraff 52; gan Ddeddf 1984, adran 1, Atodlen 1, Rhan 1, ac adran 24, Atodlen 8, Rhan 1 a Deddf 1995, adran 2(1), Atodlen 1, paragraff 28.
Diwygiwyd Adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2); gan Ddeddf 1999, adran 65(1), Atodlen 4, paragraffau 4, 37(1) a 6; gan Ddeddf 2001, adran 67(1), Atodlen 5, Rhan 1, paragraffau 5(1) a 13(b) a chan Ddeddf 2002, adran 6(3)(c).
O ran Cymru, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 38 a 39 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 4 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo, O.S. 1999/672.

(**2**) O.S. 1986/975, yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S.1996/705 sy'n mewnosod paragraffau 8A, B ac C yn Atodlen 1 i'r prif Reoliadau.